# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Mai 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Catrin Wager** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Steffan Jones, Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32402** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC): Rheoli Cŵn** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet:

- Gymeradwyo ymgymryd â'r broses o ystyried cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) mewn perthynas â rheoli cŵn ledled y Sir yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodir (atodiad 1).

- Awdurdodi'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol i ymgymryd â phroses ymgynghori am gyfnod o 28 diwrnod gan gychwyn ar 24 Mai 2021, gan ddychwelyd y mater i'r Cabinet am benderfyniad ynghylch a cyflwyno GDMC rheoli cŵn, yn ogystal ag unrhyw ddirprwyaeth gysylltiol.

Y rheswm pam bod angen penderfyniad:

- Swyddogaeth Awdurdodau Lleol a neb arall yw creu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth weithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol amdano.

### 2. CYFLWYNIAD

Mae Deddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("Deddf 2014") yn darparu fframwaith o rymoedd i unigolion a sefydliadau er mwyn gallu taclo ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus ("GDMC") i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol. Ymddygiadau y pennir eu bod yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd cymunedau lleol yw'r ymddygiadau problemus hyn. Gall gorchmynion o'r fath barhau am hyd at 3 blynedd.

Mae ymddygiadau o'r fath yn gallu cwmpasu, ymhlith materion eraill, ymddygiadau yn gysylltiedig â rheoli cŵn.

Cyn gwneud gorchymyn o’r fath rhaid i’r Awdurdod Lleol fod yn fodlon –

- bod sail resymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau;
- bod y gweithgareddau yn, neu’n debygol o fod yn fynych ac yn barhaus eu natur;
- bod y gweithgareddau yn, neu’n debygol o fod yn afresymol; a
- eu bod yn cyfiawnhau’r cyfyngiadau a nodir.

Yn ogystal, cyn gwneud gorchymyn mae rhaid i’r Awdurdod Lleol ymgynghori â’r Heddlu a’r gymuned ehangach.

Mae GDMC yn gweithio drwy alluogi i ymddygiadau gael eu herio a rhoi cyfle i’r unigolyn ddod â’r gweithgaredd i ben yn y rhan fwyaf o amgylchiadau. Os nad oes modd gwneud hyn mae modd cymryd camau gorfodaeth, gan gynnwys cyflwyno rhybudd cosb benodedig a/neu dwyn erlyniad am y drosedd o fethu â chydymffurfio â gofyniad neu waharddiad mewn GDMC.

## 3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Argymhellir cyflwyno GDMC rheoli cŵn o’r newydd fel y gall yr Awdurdod ddefnyddio’r hyblygrwydd ehangach i daclo ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan Ddeddf 2014 i’w llawn botensial yng nghyswllt rheoli cŵn.

Cyn i ddarpariaethau Ddeddf 2014 ddod i rym, roedd grymoedd yr Awdurdod Lleol i daclo problemau yn ymwneud â rheoli cŵn yn tarddu o’r Ddeddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 (“Deddf 2005”) a’r Rheoliadau Gorchmynion Rheoli Cŵn (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) OS 2007/702. Yn unol â’r darnau hyn o ddeddfwriaeth, ar 13 Mawrth 2013 gwnaeth yr Awdurdod y Gorchmynion Rheoli Cŵn canlynol:

- Gorchymyn Gwahardd Cŵn (Cyngor Gwynedd) 2013
- Gorchymyn Baeddu Tir Gan Gŵn (Cyngor Gwynedd) 2013
- Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd (Cyngor Gwynedd) 2013

O dan y Gorchmynion Rheoli Cŵn hyn cyflwynwyd cyfyngiadau a gofynion amrywiol ledled y Sir mewn perthynas â rheoli cŵn. Roedd rhain yn cynnwys gwahardd cŵn o ardaloedd penodol ar adegau penodol o’r flwyddyn, gwahardd baeddu tir gan gŵn gydol y flwyddyn, a gwneud hi’n orfodol cadw ci ar dennyn mewn mannau penodol gydol y flwyddyn. Gorfodwyd diffyg cydymffurfiaeth â’r gorchmynion hyn drwy gyflwyno rhybudd cosb benodedig ac erlyn am y drosedd o ddiffyg cydymffurfiaeth â’r gorchymyn.

Argymhellir bod angen GDMC gan nad yw'r hen Orchmynion Rheoli Cŵn bellach yn cyrraedd safonau'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf. Yn benodol, mae cynnwys yr ymddygiadau rheoli cŵn y mae'r gorchmynion o 2013 yn rheoli wedi eu cyfyngu i'r ymddygiadau penodol a ragnodwyd yn OS 2007/702; yn achos Gwynedd yr ymddygiadau dan sylw oedd gadael i gi fynd ar ddarn o dir penodol, gadael i gi faeddu, a gadael ci i grwydro heb fod ar dennyn pan fo swyddog wedi rhoi cyfarwyddyd fel arall.

Bydd GDMC o'r newydd yn rhoi cyfle i'r Awdurdod ailddiffinio a rheoli'r ymddygiadau rheoli cŵn yn unol â'r hyn sydd wir yn achosi problemau gwrthgymdeithasol yn y Sir.

Mae'r Adran wedi bod yn ymgynghori'n fewnol am y bwriad i gyflwyno GDMC sy'n cyd-fynd â'r trefniadau a oedd yn y Gorchmynion Rheoli Cŵn. Mae mewnbwn cychwynnol wedi dod i law oddi wrth yr Adrannau Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Addysg, Amgylchedd, Economi a Chymuned (Morwrol) ac oddi wrth gwmni Byw'n Iach cyf. Ar y cyfan, mae nifer o'r adrannau yn hapus gyda natur yr hen Orchmynion ac yn gofyn i'r un amodau gael eu cynnwys mewn GDMC. Fodd bynnag, mae ceisiadau wedi dod i law yn gofyn am rai trefniadau gwahanol i'r rhai fu yn y Gorchmynion Rheoli Cŵn, sef:

| Lleoliad | Trefniadau o dan y Gorchmynion Rheoli Cŵn | Trefniadau arfaethedig |
|---|---|---|
| Traeth Tywyn | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o ben gogleddol Plas Edwards | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r gorllewin o Ffordd Warwig (Warwick Place Road) a man i'r gorllewin o Ffordd y Pier (Pier Road) |
| Friog | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o'r maes golff | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng man i'r de o'r 'pillbox' yn ne'r traeth a man i'r gorllewin o gyffordd Ffordd y Traeth |
| Criccieth - Marine | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o'r traeth | Dim gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth |
| Abersoch | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng yr harbwr a man i'r dwyrain o Lôn Golff | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y traeth rhwng Pen Bennar a man i'r dwyrain o Lôn Golff |
| Porthor | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar y cyfan o Draeth Porthor | Gwaharddiad cŵn tymhorol ar Draeth Porthor i'r dwyrain o Gaffi Porthor |

Mae'r Gorchymyn Drafft yn ymgorffori'r trefniadau arfaethedig yn y tabl uchod; fel arall y mae'r cynnwys yn seiliedig ar gynnwys yr hen Orchmynion Rheoli Cŵn. Mae mapiau yn arddangos yr ardaloedd gwahardd cŵn arfaethedig wedi eu cynnwys gyda'r Gorchymyn Drafft yn atodiad 1.

Mae asesiad cydraddoldeb a baratowyd yn unol â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wedi ei atodi (atodiad 2). Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol a chyn dychwelyd i Gabinet am benderfyniad terfynol.

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'r adroddiad hwn wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o'r pum ffordd o weithio fel y dangosir isod:

Hirdymor: Bydd y GDMC yn parhau mewn lle am 3 blynedd gyda'r bwriad o newid agweddau pobl tuag at eu hymddygiad mewn mannau cyhoeddus o ran rheoli cŵn. Yn y tymor hirach gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu tuag at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau a dealltwriaeth o'r angen i ystyried yr effaith ar eraill.

Atal: Bydd GDMC yn helpu i leihau'r niferoedd o ymddygiadau gwrthgymdeithasol o ran rheoli cŵn ac yn help i atal y sefyllfa rhag dirywio yn y dyfodol.

Integreiddio: Mae'r GDMC yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau (Adran Priffyrdd, Adran Addysg, cynghorau cymuned). Bydd hefyd yn cyfrannu at amcanion yr Heddlu sef lleihau troseddau a gwneud y strydoedd a llefydd cyhoeddus yn fwy diogelu i drigolion ac ymwelwyr ac at uchelgais yr Awdurdod o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.

Cydweithio: Byddai'r datblygiad yma yn rhan o gydweithio drwy ymgynghori gydag aelodau'r Awdurdod, adrannau o'r Awdurdod, yr Heddlu, cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol.

Cynnwys: Mae adrannau amrywiol o'r Awdurdod wedi bod ynghlwm â thrafodaethau cychwynnol, a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y cais.

Bydd angen ystyried effaith y gorchmynion newydd ar gapasiti y Tîm Gorfodaeth a gall olygu cyflogi Warden parhaol ychwanegol. Bydd yr Adran yn ystyried hyn ymhellach gan adrodd yn ôl i'r Cabinet am benderfyniad.

Mae'r Gorchymyn Arfaethedig drafft ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r union fesurau fu mewn lle o dan yr hen Orchmynion Rheoli Cŵn. Fodd bynnag, mae'r drafft yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei hadolygu (ac os cynghorir felly, ei diwygio) yn dilyn yr ymgynghoriad a chyn dychwelyd i Gabinet am benderfyniad terfynol.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Y Cabinet i gymeradwyo mewn egwyddor i barhau â'r broses o ystyried cyflwyno GDMC rheoli cŵn i'r Sir yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig.

Os cymeradwyir yr uchod, rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r Gorchymyn Arfaethedig, a bydd angen i hwn fod yn ei le am 28 diwrnod. Cynhelir yr ymgynghoriad hwn drwy amryw ddulliau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ohebu yn uniongyrchol gyda rhan-ddeiliaid allweddol (e.e. Heddlu, cynghorau cymuned), a thrwy safle we'r Awdurdod.

Wedi'r ymgynghoriad bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r Cabinet, yn argymell unrhyw ddiwygiadau i'r drafft gorchymyn ar sail yr ymgynghoriad hwnnw, ac yn cynghori a ydynt yn dal i argymell y Gorchymyn Arfaethedig.

Bydd rhaid ail osod arwyddion er adlewyrchu y gorchymyn newydd a rhagweler cost un tro o £15k - £20k i'w ail osod. Sut bynnag , gall yr ymgynghoriad amlygu gofynion ychwanegol pellach ac o bosib bydd hyn yn golygu cost cyflogi swyddog parhaol er mwyn eu gwireddu. Byddwn yn gallu cadarnhau a chyflwyno sylw pellach yn yr adroddiad fydd yn dilyn y gwaith hwn.

Os ydynt yn dal i argymell y Gorchymyn Arfaethedig, bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd ati i wneud y Gorchymyn Arfaethedig a chodi arwyddion.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A WNAED CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Mae'r ymgynghoriadau hyd yma yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad.
Bydd angen ymgynghoriad cyhoeddus statudol pellach cyn dychwelyd i'r Cabinet am benderfyniad terfynol.

**Atodiadau**

**Atodiad 1** - Gorchymyn Arfaethedig Drafft
**Atodiad 2** - Asesiad Cydraddoldeb

## 6. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cynorthwyo gyda'r adroddiad yma, dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Y penderfyniad a geisir yw lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â sut dylai'r Cyngor arddel ei rym i osod cyfyngiadau yn unol â deddfwriaeth. Yn hynny o beth, nid oes gennyf sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol, gan ddisgwyl y byddai unrhyw gostau ynghlwm â'r ymgynghoriad yn cael eu hariannu o gyllidebau presennol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, os bydd y Cabinet yn ystyried y mater ymhellach er mwyn dod i benderfyniad ar osod gorchmynion, bydd angen ystyriaeth lawn o'r costau gweithredu ychwanegol bryd hynny.